monmouthshire
sir fynwy

**PENDERFYNIADIAU AELOD CABINET UNIGOL**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 23 Hydref 2024**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Dydd Gwener, 1 Tachwedd 2024**
Gall penderfyniadau a wneir gan y cabinet llawn ac aelodau unigol o'r cabinet gael eu "Galw Mewn" gan y Pwyllgor Dethol perthnasol. Os caiff penderfyniad ei alw mewn, ni fydd yn dod i rym fel y nodir uchod a chaiff ei gyflwyno eto maes o law.

| Eitem Rhif | Teitl | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| **1** | GWEITHGOR CRONFA'R DEGWM | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>GWEITHGOR CRONFA'R DEGWM<br>Penderfynwyd dyfarnu'r grantiau canlynol yn unol â'r rhestr ceisiadau.<br><br>RHESTR O GEISIADAU A YSTYRIWYD 2023/24 - CYFARFOD 2.<br><br>• Capel Llangwm - maent wedi ceisio am £5,000 i ail-rendro waliau allanol y capel ar ôl gosod ffenestri newydd.<br><br>Argymhelliad: Gohiriwyd y cais i gael gwybodaeth fanylach oedd ei hangen er mwyn i'r pwyllgor wneud penderfyniad gwybodus.<br><br>• Eglwys Sant Tewdrig, Merthyr Tewdrig - maent wedi ceisio am gronfa o £10,000 ar gyfer atgyweirio cadwraeth i dŵr yr eglwys.<br><br>Argymhelliad: Dyfarnu £3,000 i helpu gwarchod tŵr cloch yr eglwys.<br><br>• Eglwys y Santes Fair, Llanfair Cilgoed - maent wedi ceisio am £2,000 i helpu i atgyweirio'r talcen gorllewinol a'r cwt cloch er mwyn atal difrod pellach oherwydd bod dŵr yn dod i mewn.<br><br>Argymhelliad: Dyfarnu £2,000 i helpu atgyweirio'r talcen gorllewinol a'r cwt cloch ar yr eglwys hanesyddol hon.<br><br>• Canolfan Gymunedol Goetre - maent wedi ceisio am £2,000 i brynu offer storio ar gyfer y Ganolfan Gymunedol ac offer arlwyo ar gyfer gwerthu lluniaeth i'r grwpiau cymunedol sy'n defnyddio'r ganolfan.<br><br>Argymhelliad: Dyfarnu £1,500 i helpu i ddarparu darpariaeth storio yn yr ased cymunedol hwn.<br><br>• Eglwys Sant Pedr - maent wedi ceisio am £3,598 ar gyfer atgyweirio cofebau wal ddiffygiol / difrodedig, er diogelwch yr eglwys<br><br>Argymhelliad: Dyfarnu £1,000 i helpu i atgyweirio cofebau wal yr eglwys.<br>.<br>• Pwyllgor Digwyddiadau Cil-y-coed - maent wedi ceisio am £1,532 ar gyfer prynu Groto Nadolig Chwyddadwy i'w ddefnyddio gan grwpiau Cymunedol yn ystod tymor yr ŵyl.<br><br>Argymhelliad: Dyfarnu £250 i helpu i ariannu Groto Gŵyl Nadolig ar gyfer digwyddiadau cymunedol.<br>. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • Gofynnwyd am £500 gan unigolyn ar gyfer datblygiad personol. (wedi'i gyfyngu). Gwrthodwyd y cais hwn gan nad oedd yn bodloni'r meini prawf cyllido i'w gymeradwyo.<br><br>• Gofynnwyd am £500 gan unigolyn ar gyfer datblygiad personol. (wedi'i gyfyngu). Gohiriwyd y cais hwn i ddyddiad yn y dyfodol er mwyn derbyn gwybodaeth bellach angenrheidiol. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **2** | CASGLIAD ARIAN A SICRHAWYD O DAN FRIDIANT TIR A GOFRESTRWYD MEWN CYSYLLTIAD Â HYSBYSIAD GWAITH BRYS | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | DATRYS:<br>Penderfynywd cytuno ar argymhellion yr ad roddiad |
| **Additional Information:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | Dim | |
| | | | | |